# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 11 Chwefror 2003

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

### Dileu Tlodi ymhlith Plant

**C11 Ann Jones:** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda'r gynghrair diddymu tlodi ymhlith plant mewn perthynas â rôl y Cynulliad o ran dileu tlodi ymhlith plant yng Nghymru? (OAQ22313)

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn datblygu strategaeth i fynd i'r afael â thlodi plant yng Nghymru yn y flwyddyn sydd i ddod. Bydd cynrychiolwyr o Rwydwaith Terfyn ar Dlodi Plant Cymru yn rhan o'r tasglu sydd bellach yn cael ei ffurfio i gynhyrchu'r strategaeth hon.

### Cynhwysiant Cymdeithasol

**C12 John Griffiths:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y sefyllfa ddiweddaraf o ran cyflawni cynhwysiant cymdeithasol ledled Cymru? (OAQ22337)

**Y Prif Weinidog:** Un o dair egwyddor arweiniol y Cynulliad yw cynhwysiant cymdeithasol, ynghyd â chyfle cyfartal a datblygu cynaliadwy. Manylir ar yr amrywiaeth o raglenni a chynlluniau i fynd i'r afael a thlodi ac anfantais cymdeithasol yn adroddiad blynyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru.

### Polisïau Addysg

**C13 Nick Bourne:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddatblygiad polisïau addysg ei Lywodraeth? (OAQ22317)

**Y Prif Weinidog:** Ers dyddiau cynharaf y Cynulliad, yr ydym wedi datblygu agenda nodweddiadol a wnaed yng Nghymru ar gyfer addysg. Mae adolygiadau ein Pwyllgorau addysg o bolisïau allweddol, a gwaith mewn partneriaeth â sefydliadau, awdurdodau lleol, ymarferwyr a dysgwyr wedi rhoi agenda inni ar gyfer 'Y Wlad sy'n Dysgu', a chymeradwyaf ef i'r Cynulliad ac i Gymru.

### Cyfraddau Ailgylchu

**C14 Eleanor Burnham:** Pa gamau sydd wedi'u cymryd o ran cynyddu'r cyfraddau ailgylchu ledled Cymru? (OAQ22328)

**Y Prif Weinidog:** Ar gyfartaledd, ailgylchodd a chompostiodd awdurdodau lleol 7 y cant o wastraff yn 2000-01, sef y drydedd flwyddyn yn olynol y bu gwelliant. Dylai wella eto yn 2002-03 tuag at gyrraedd ein targed o 15 y cant erbyn 2003-04, gan ddefnyddio'r arian ychwanegol a ddarparwyd gennym. Ein bwriad yw ailgylchu neu gompostio 40 y cant o wastraff trefol erbyn 2009-10.

### Cyfrifoldeb am yr Heddlu a'r Gwasanaeth Tân

**C15 Peter Black:** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru am drosglwyddo'r cyfrifoldeb am yr heddlu a'r gwasanaeth tân i Gynulliad Cenedlaethol Cymru? (OAQ22319)

**Y Prif Weinidog:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn trafodaethau gweithredol â Llywodraeth y DU am argymhellion arolwg Bain o'r gwasanaeth tân. Argymhellodd yr arolwg y dylid datganoli cyfrifoldeb dros y gwasanaeth tân i Gymru, gyda threfniadau am archwilio, trafod cyflog a thelerau ac amodau'r gyflogaeth yn aros ar sail Cymru a Lloegr.

Ni fu trafodaethau hyd yn hyn â Llywodraeth y DU am ddatganoli cyfrifoldeb dros yr heddlu, er inni gyfleu iddi yn glir ein barn nad yw'r trefniadau presennol am ariannu'r heddluoedd—rhennir y cyfrifoldeb rhwng y Swyddfa Gartref a'r Cynulliad Cenedlaethol—yn gweithio yn dda a rhaid eu hadolygu.